Ministry of Defence

Defence Relationship Management




# Llawlyfr Ymgysylltu â Chyflogwyr

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn | 1 |
| Cyfamod y Lluoedd Arfog | 2 |
| Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn | 3 |
| Cymdeithasau'r Milwyr Wrth Gefn a'r Cadetiaid | 6 |
| Milwyr Wrth Gefn | 8 |
| Milwyr Wrth Gefn: gweithdrefnau ymfyddino a gweithdrefnau cychwynnol ar gyfer eu galw i wasanaethu | 10 |
| Eich hawliau a'ch cyfrifoldebau fel cyflogwr Milwr Wrth Gefn | 12 |
| Cymorth ariannol i gyflogwyr | 14 |
| Cymorth ariannol i Filwyr Wrth Gefn | 15 |
| Y Bartneriaeth Pontio Gyrfa | 17 |
| Y Gyfarwyddiaeth Hyfforddiant, Addysg, Sgiliau, Recriwtio ac Ailsefydlu | 18 |
| Yr Adran Gwaith a Phensiynau | 19 |
| Cymdeithas y Swyddogion | 20 |
| Porth y Cyn-filwyr | 22 |
| RFEA – Elusen Cyflogaeth y Lluoedd Arfog | 23 |
| Forces Families Jobs | 24 |
| Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges | 25 |
| Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin | 26 |
| Ffederasiwn Teuluoedd y Llu Awyr Brenhinol | 28 |
| Gwasanaeth Disgownt y Weinyddiaeth Amddiffyn | 29 |
| COBSEO | 30 |
| Yr Ymddiriedolaeth Forces in Mind | 31 |
| Rhestr gyswllt | 32-36 |

# Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn (DRM)

**Mae Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn yn cydweithio gyda sefydliadau er mwyn cefnogi cyflogaeth sifil yng nghymuned y Lluoedd Arfog, yn cynnwys Milwyr Wrth Gefn, gwŷr/gwragedd/partneriaid, Cyn-filwyr a Gwirfoddolwyr Oedolion Llu'r Cadetiaid. Mae'n cynghori sefydliadau ynghylch gwella tegwch ar gyfer y gymuned hon ac yn annog polisïau Adnoddau Dynol sy'n ystyriol o'r lluoedd arfog. Mae Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn yn cynorthwyo cyflogwyr i recriwtio a dal gafael ar aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog er mwyn i fusnesau allu cael mynediad at sgiliau trosglwyddadwy y gall staff y Lluoedd Arfog eu cyflwyno i'r gweithle.**

Mae Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn yn meithrin perthynas weithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn, sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall. Mae Rheolwyr Cyfrifon a Chyfarwyddwyr Ymgysylltu â Chyflogwyr Rhanbarthol Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn yn mynd ati i reoli'r perthnasoedd hyn gyda chyflogwyr er mwyn sicrhau bod amcanion y lluoedd amddiffyn yn parhau i gael eu cefnogi a bod Cyfamod y Lluoedd Arfog yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.

**Dyma rai ffyrdd mae Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn yn cynnig cymorth:**

- cyflogi Milwyr Wrth Gefn a chynnig cymorth trwy bolisïau Adnoddau Dynol hyblyg
- cyflogi staff rheolaidd y gwasanaethau arfog ar ddiwedd eu hymrwymiadau, ar y cyd â'r Bartneriaeth Pontio Gyrfa (CTP)
- cyfleoedd cyflogaeth i'r rhai sy'n gadael y gwasanaethau arfog, sef y rhai a chanddynt waith pontio mwy heriol o'u blaen, yn cynnwys pobl sydd wedi'u hanafu a phobl sâl
- cyflogi gwŷr/gwragedd/partneriaid staff y gwasanaethau arfog
- datblygu sgiliau ar y cyd mewn meysydd fel peirianneg, y byd meddygol a seiberddiogelwch
- cymorth a chyfleoedd gyrfaol i hyfforddwyr oedolion y cadetiaid

## Lleoliadau Proffesiynol

Mae Rhaglen Lleoliadau Proffesiynol y Lluoedd Amddiffyn, a drefnir trwy'r Llynges Frenhinol, y Fyddin, y Llu Awyr Brenhinol a Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn, yn cynnwys mentrau blaenllaw ar gyfer rhannu a meithrin talent a gwybodaeth gyda phartneriaid yn y diwydiant ar draws gwahanol sectorau. Fel arfer, mae'r lleoliadau'n para rhwng chwech a naw mis a chânt eu cynllunio ar y cyd â phartneriaid yn y diwydiant i sicrhau buddion cyffredin a chanddynt ganlyniadau pendant y cytunir arnynt ymlaen llaw. Bob blwyddyn, mae'r lluoedd amddiffyn yn blaenoriaethu meysydd lle mae angen meithrin sgiliau, gan fynd ati i bennu faint o leoliadau sydd ar gael ac ym mha sector yn y diwydiant y bydd y staff yn cael eu lleoli.

# Cyfamod y Lluoedd Arfog

**Addewid gan y genedl y bydd y rhai sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ar hyn o bryd, neu a fu'n gwasanaethu yn y gorffennol, ynghyd â'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg – dyna yw Cyfamod y Lluoedd Arfog. Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn nodi'r berthynas y dymunir ei chael rhwng y llywodraeth, y lluoedd arfog a'r gymdeithas ehangach. Trefniant tair ffordd yw'r Cyfamod, ac mae wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth fod gan y genedl gyfan, yn ychwanegol at y llywodraeth, rwymedigaeth foesol i aelodau'r Lluoedd Arfog, yn y gorffennol a'r presennol, ynghyd â'u teuluoedd.**

Mae miloedd o gyflogwyr ledled y DU wedi addo cefnogi cymuned y Lluoedd Arfog. Mae'r cyfamod yn canolbwyntio ar helpu aelodau cymuned y Lluoedd Arfog i gael yr un mynediad at wasanaethau a chynhyrchion y llywodraeth a gwasanaethau a chynhyrchion masnachol ag unrhyw ddinesydd arall.




**Caiff y cymorth hwn ei ddarparu mewn sawl maes, yn cynnwys:**

- addysg a llesiant teuluol
- bod â chartref
- dechrau gyrfa newydd
- mynediad at ofal iechyd
- cymorth ariannol
- gwasanaethau gostyngol

ARMED FORCES
COVENANT
CYFAMOD
Y LLUOEDD ARFOG

# Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn (ERS)

**Mae Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn yn annog cyflogwyr i gefnogi'r lluoedd amddiffyn ac ysbrydoli eraill i wneud yr un peth. Mae'r cynllun yn cynnwys gwobrau efydd, arian ac aur ar gyfer cyflogwyr sy'n addo, yn arddangos neu'n cefnogi cymorth i gymuned y lluoedd amddiffyn a chymuned y Lluoedd Arfog, ac sy'n cydweddu eu gwerthoedd â Chyfamod y Lluoedd Arfog.**

Prif bwrpas Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn yw rhoi cydnabyddiaeth i'r cymorth a roddir gan y sector preifat; ond mae sefydliadau'r sector cyhoeddus, fel y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau'r GIG ac asiantaethau gweithredol, hefyd yn gymwys i gael eu cydnabod.

## Deiliaid y wobr efydd:

1. mae cyflogwyr sy'n addo cefnogi'r lluoedd arfog – yn cynnwys cyflogwyr presennol a darpar gyflogwyr sy'n aelodau o'r gymuned – yn eu henwebu eu hunain
2. rhaid iddynt fod wedi arwyddo Cyfamod y Lluoedd Arfog
3. maent yn hyrwyddo'r arfer o fod yn ystyriol o'r Lluoedd Arfog ac maent yn barod i gyflogi Milwyr Wrth Gefn, Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog (yn cynnwys rhai sydd wedi'u hanafu a rhai a sâl), hyfforddwyr cadetiaid a gwŷr/gwragedd milwyr
4. cânt logos a thystysgrif electronig i'w harddangos ar eu gwefan, ar eu papur swyddfa ac ar eu deunyddiau atodol

## Deiliaid y wobr arian:

1. rhaid iddynt fod wedi arwyddo Cyfamod y Lluoedd Arfog
2. maent eisoes wedi datgan eu bwriad i fod yn gefnogol trwy ddefnyddio gwefan Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn i gofrestru ar y lefel Efydd




3. maent yn mynd ati'n rhagweithiol i ddangos nad yw staff y gwasanaethau arfog/cymuned y lluoedd arfog yn dioddef anfantais annheg fel rhan o'u prosesau recriwtio a dethol

4. maent yn cyflogi o leiaf un unigolyn o gategori cymuned y Lluoedd Arfog y tynnir sylw ato yn yr enwebiad. Er enghraifft, yn achos cyflogwr sydd wedi'i enwebu am gefnogi Milwyr Wrth Gefn, rhaid i'r cyflogwr hwnnw gyflogi o leiaf un Milwr Wrth Gefn

5. maent yn mynd ati i sicrhau bod eu gweithlu'n ymwybodol o'r polisïau cadarnhaol sydd ganddynt mewn perthynas â materion pobl y lluoedd amddiffyn. Er enghraifft, yn achos cyflogwr sydd wedi'i enwebu am gefnogi Milwyr Wrth Gefn, rhaid i'r cyflogwr hwnnw fod â pholisi Adnoddau Dynol cadarnhaol, sydd wedi'i hyrwyddo'n fewnol, yn ymwneud â Milwyr Wrth Gefn

6. yng nghyd-destun Milwyr Wrth Gefn, rhaid i gyflogwyr fod wedi dangos cefnogaeth i ymfyddino, neu fod â fframwaith ar waith. Rhaid iddynt ddangos cefnogaeth i hyfforddiant trwy roi o leiaf 5 diwrnod o wyliau di-dâl/â thâl ychwanegol (heb arwain at anfantais ariannol i Filwyr Wrth Gefn a gyflogir ganddynt, pa bryd bynnag y bo modd)

7. ni ddylai'r cyflogwr fod wedi cael unrhyw sylw negyddol yn y byd Cysylltiadau Cyhoeddus neu ar y cyfryngau

## Deiliaid y wobr aur:

1. rhaid iddynt fod wedi arwyddo Cyfamod y Lluoedd Arfog

2. mae ganddynt berthynas eisoes â'u Rheolwr Cyfrif Cenedlaethol / REED / cynrychiolydd priodol yn y lluoedd amddiffyn

3. maent eisoes wedi datgan eu bwriad i fod yn gefnogol trwy ddefnyddio gwefan Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn i gofrestru ar y lefel Efydd

4. maent yn mynd ati i arddangos eu nodweddion 'ystyriol o'r lluoedd arfog' fel rhan o'u prosesau recriwtio a dethol. Pan fo modd, dylent ymgysylltu â'r Bartneriaeth Pontio Gyrfa wrth recriwtio rhai sy'n gadael y gwasanaethau arfog

5. maent yn cyflogi o leiaf un unigolyn o gategori cymuned y Lluoedd Arfog y tynnir sylw ato yn yr enwebiad. Er enghraifft, yn achos cyflogwr sydd wedi'i enwebu am gefnogi Milwyr Wrth Gefn, rhaid i'r cyflogwr hwnnw gyflogi o leiaf un Milwr Wrth Gefn

6. maent yn mynd ati i sicrhau bod eu gweithlu'n ymwybodol o'r polisïau cadarnhaol sydd ganddynt mewn perthynas â materion pobl y lluoedd amddiffyn. Er enghraifft, yn achos cyflogwr sydd wedi'i enwebu am gefnogi Milwyr Wrth Gefn, rhaid i'r cyflogwr hwnnw fod â pholisi Adnoddau Dynol cadarnhaol, sydd wedi'i hyrwyddo'n fewnol, yn ymwneud â Milwyr Wrth Gefn

7. rhaid iddynt fod yn batrwm o gyflogwr o fewn eu sector marchnad, gan hyrwyddo cymorth i faterion pobl y lluoedd amddiffyn ymhlith sefydliadau partner, cyflenwyr a chwsmeriaid, a chan esgor ar ganlyniadau cadarnhaol gwirioneddol

8. yng nghyd-destun Milwyr Wrth Gefn, rhaid i gyflogwyr fod wedi dangos cefnogaeth i ymfyddino, neu fod â fframwaith ar waith. Rhaid iddynt roi o leiaf 10 diwrnod o wyliau ychwanegol ar gyfer hyfforddiant, ar dâl llawn, i'r Milwr Wrth Gefn a gyflogir ganddynt

9. ni ddylent fod wedi cael unrhyw sylw negyddol yn y byd Cysylltiadau Cyhoeddus neu ar y cyfryngau

Caiff enwebiadau eu dilysu er mwyn pennu faint o staff y lluoedd amddiffyn a gyflogir yn y sefydliad a enwebwyd, ac er mwyn gwirio bod y sefydliad wedi arwyddo Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Ar ôl i'r enwebiad gael ei ddilysu, bydd yn cael ei ystyried gan fwrdd dethol – ar lefel genedlaethol yn achos gwobrau aur, ac ar lefel ranbarthol yn achos gwobrau arian. Bydd y byrddau dethol yn cynnwys panel a gadeirir gan uwch-swyddog milwrol a byddant yn ystyried pob enwebiad ar sail meini prawf y wobr. Yn achos sefydliadau a gaiff eu dewis ar gyfer gwobrau aur ac arian, byddant yn cael eu hysbysu'n ffurfiol ar ddu a gwyn ac yn cael gwahoddiad i'r achlysur gwobrwyo perthnasol.

## Y Gymdeithas Alumni Aur (GAA)

Lansiwyd y Gymdeithas Alumni Aur yn 2016 gan grŵp o gyflogwyr Aur, a hynny er mwyn cysylltu a sbarduno'r gymuned gynyddol o sefydliadau ledled y DU sy'n ystyriol o'r Lluoedd Arfog. Dyma rwydwaith rhanbarthol a chenedlaethol o ddeiliaid y wobr Aur, a'r bwriad yw cynorthwyo enillwyr gwobrau Efydd ac Arian ar eu taith tuag at yr Aur, gan fynd ati'r un pryd i rannu arferion gorau a syniadau rhwng yr Alumni Aur ynghylch sut i gefnogi mwy ar Gyfamod y Lluoedd Arfog.



# Cymdeithasau'r Milwyr Wrth Gefn a'r Cadetiaid (RFCA)

**Mae Cymdeithasau'r Milwyr Wrth Gefn a'r Cadetiaid yn rhoi cyngor a chymorth i'r Cyngor Amddiffyn, a hefyd i'r Fyddin, y Llynges a'r Llu Awyr, ynghylch materion yn ymwneud â Milwyr Wrth Gefn a chadetiaid.**

Mae'n cynnwys 13 o gymdeithasau unigol sy'n cwmpasu'r Deyrnas Unedig, ac ar y cyfan mae'r cymdeithasau hyn yn cyd-fynd â ffiniau llywodraeth ranbarthol. Mae pob cymdeithas yn cynnwys corff o aelodau gwirfoddol ac ysgrifenyddiaeth broffesiynol sy'n gyfrifol am lesiant Milwyr Wrth Gefn a chadetiaid y rhanbarth, ac maent yn hyrwyddo buddiannau'r Lluoedd Arfog ac yn meithrin perthnasoedd gyda chyflogwyr a'r gymuned leol.



**Dyma restr o Gymdeithasau'r Milwyr Wrth Gefn a'r Cadetiaid, sef cyfanswm o 13:**

1. RFCA Ucheldiroedd yr Alban
2. RFCA Iseldiroedd yr Alban
3. RFCA Gogledd Lloegr
4. RFCA Swydd Efrog a'r Humber
5. RFCA Gogledd Orllewin Lloegr
6. RFCA Cymru
7. RFCA Gorllewin Canolbarth Lloegr
8. RFCA Dwyrain Canolbarth Lloegr
9. RFCA Wessex
10. RFCA East Anglia
11. RFCA Llundain Fwyaf
12. RFCA De Ddwyrain Lloegr
13. RFCA Gogledd Iwerddon

**Mae Cymdeithasau'r Milwyr Wrth Gefn a'r Cadetiaid yn gyfrifol am y canlynol:**

- yn rhanbarthol, rhoi cyngor a chymorth ar ran lluoedd Milwyr Wrth Gefn a chadetiaid gwirfoddol y DU
- gweithio gyda chadwyni awdurdod y tri gwasanaeth i gynnig cymorth i filwyr wrth gefn a chadetiaid ar sail Cytundebau Lefel Gwasanaeth
- creu a chynnal cysylltiadau â'r gymuned ac ymgysylltu â chyflogwyr ar ran y lluoedd amddiffyn
- darparu ystâd ar gyfer y gwirfoddolwyr trwy gynnal a chadw a chefnogi canolfannau hyfforddi Milwyr Wrth Gefn, canolfannau cadetiaid ac ardaloedd hyfforddi y gall Milwyr Wrth Gefn a chadetiaid y tri gwasanaeth eu defnyddio i gynnal eu gweithgareddau

**Dyma flaenoriaethau Cymdeithasau'r Milwyr Wrth Gefn a'r Cadetiaid:**

- rhoi cyngor a chymorth i'r Cyngor Amddiffyn
- cydymffurfio â'r Cynllun Amddiffyn

**Yn ogystal â'r dyletswyddau cyffredinol sydd gan Gymdeithasau'r Milwyr Wrth Gefn a'r Cadetiaid, mae'r Cyngor Amddiffyn wedi pennu'r tasgau canlynol ar eu cyfer:**

- yr ystâd a'r seilwaith ar gyfer y gwirfoddolwyr
- cymorth i gyflogwyr
- cadetiaid ac ieuenctid
- creu a chynnal cysylltiadau â'r gymuned sifil





# Milwyr Wrth Gefn

## Ymrwymiadau hyfforddiant milwrol milwyr wrth gefn

Mae Milwyr Wrth Gefn wedi ymrwymo i fynd i'r afael â hyfforddiant milwrol drwy gydol y flwyddyn, a bydd llawer o'r hyfforddiant hwn o fudd uniongyrchol i'w cyflogwr ar ôl iddynt ddychwelyd i'w swyddi sifil.

Y prif ymrwymiad blynyddol o ran hyfforddiant yw mynychu gwersyll hyfforddi am bythefnos. Efallai y bydd ymrwymiadau eraill yn effeithio ar filwyr wrth gefn cyflogedig sydd fel arfer yn gweithio y tu allan i oriau swyddfa arferol, e.e.:

- hyfforddiant wythnosol – a gynhelir yn lleol am oddeutu 2.5 awr, un noson yr wythnos
- hyfforddiant dros y penwythnos – a gynhelir sawl penwythnos drwy gydol y flwyddyn

Mae rhai Milwyr Wrth Gefn yn mynd i'r afael â hyfforddiant gwirfoddol mewn meysydd fel iechyd a diogelwch, TG a rheoli personél.

Mae rhai cyflogwyr yn caniatáu gwyliau ychwanegol i filwyr wrth gefn er mwyn eu galluogi i fynychu hyfforddiant, ond nid oes unrhyw orfodaeth ar gyflogwyr i wneud hyn.

## Diwrnod y Milwyr Wrth Gefn

Mae Milwyr Wrth Gefn yn neilltuo'u hamser hamdden i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog Wrth Gefn, gan gydbwyso eu bywyd sifil â gyrfa filwrol er mwyn sicrhau y byddant yn barod i wasanaethu fel rhan o'r Lluoedd Arfog pe bai eu gwlad eu hangen.

Mae oddeutu un rhan o chwech o staff y Lluoedd Arfog yn cynnwys Lluoedd y Milwyr Wrth Gefn, ac o'r herwydd maent yn rhan hanfodol o allu'r lluoedd amddiffyn, gan ddiogelu'r genedl gartref a thramor. Yn arbennig, maent yn darparu gallu mewn meysydd arbenigol, fel meysydd meddygol a seiber.

Ar hyn o bryd mae Milwyr Wrth Gefn yn cynorthwyo mewn ymgyrchoedd ledled y byd. Yn aml, fodd bynnag, nid yw'r cyfraniad a wnânt at ein Lluoedd Arfog yn cael ei gydnabod gan gymdeithas. O'r herwydd, cafodd Diwrnod Milwyr Wrth Gefn blynyddol ei greu er mwyn cydnabod a thynnu sylw at y cyfraniad gwerthfawr a wna Milwyr Wrth Gefn at ein Lluoedd Arfog.

Caiff Diwrnod y Milwyr Wrth Gefn ei ddathlu ar y dydd Mercher cyn Diwrnod y Lluoedd Arfog, sef yr wythnos lawn olaf ym mis Mehefin fel arfer.

Mae Milwyr Wrth Gefn i'w cael ym mhob man, ond efallai nad ydych yn gwybod hynny. Felly, ar Ddiwrnod y Milwyr Wrth Gefn, mae Milwyr Wrth Gefn yn gwisgo'u lifrau yn eu bywyd sifil. Mae'r lluoedd amddiffyn yn gofyn i gyflogwyr ddiolch i Filwyr Wrth Gefn ledled y DU am eu hymroddiad, eu proffesiynoldeb a'u hymrwymiad i wasanaethu ein gwlad. Pa un a ydych yn sefydliad mawr, yn fusnes bach, yn elusen neu'n hunangyflogedig, dangoswch eich cefnogaeth trwy gynnal sgwrs yn y gweithle, trefnu digwyddiad neu, yn syml, fynd ati i ddangos yn gyhoeddus eich cefnogaeth i ddathlu Diwrnod y Milwyr Wrth Gefn.

## Gwahanol fathau o Filwyr Wrth Gefn

**Mae Milwyr Wrth Gefn y DU yn cynnwys:**

**Milwyr Wrth Gefn Gwirfoddol** Dyma wirfoddolwyr sy'n ymrwymo i ddilyn hyfforddiant blynyddol. Fe allent gael eu galw ar wasanaeth parhaol. Mae Lluoedd y Milwyr Wrth Gefn Gwirfoddol yn cynnwys Milwyr Wrth Gefn y Llynges Frenhinol, Milwyr Wrth Gefn y Môr-filwyr Brenhinol, Milwyr Wrth Gefn y Fyddin a Milwyr Wrth Gefn y Llu Awyr Cynorthwyol.

**Milwyr Wrth Gefn Rheolaidd** Dyma gyn-staff rheolaidd y lluoedd a allai, ar ôl gadael y lluoedd rheolaidd, gael eu galw i wasanaethu. Mae Lluoedd y Milwyr Wrth Gefn Rheolaidd yn cynnwys Milwyr Wrth Gefn y Fflyd Frenhinol (Y Llynges Frenhinol / Môr-filwyr Brenhinol), Milwyr Rheolaidd y Fyddin a Milwyr Rheolaidd y Llu Awyr Brenhinol.

Hefyd, ceir Cyn-filwyr Wrth Gefn Rheolaidd y gellir galw arnynt i wasanaethu yn ystod perygl cenedlaethol, argyfwng mawr neu ymosodiad gwirioneddol neu bosibl ar y DU.

Ceir dau gategori arall o Filwyr Wrth Gefn, a gallant fod yn perthyn naill ai i'r cohort Gwirfoddol neu i'r cohort Rheolaidd, sef:

**Milwyr Wrth Gefn Parodrwydd Uchel** Gall Milwyr Wrth Gefn Parodrwydd Uchel fod yn aelodau o unrhyw Lu Wrth Gefn. Maent yn meddu ar sgiliau arbenigol ac maent yn derbyn y byddant yn fwy tebygol o gael eu galw i wasanaethu. Mae Milwyr Wrth Gefn Parodrwydd Uchel yn bodloni'r angen am sgiliau a all fod yn brin ymhlith y Lluoedd Rheolaidd a'r Lluoedd Wrth Gefn ac y gall fod eu hangen yn ddi-oed mewn argyfwng.

**Milwyr Wrth Gefn a Noddir** Yn achos Milwyr Wrth Gefn a Noddir, mae gan eu cyflogwyr drefniant (contract fel arfer) gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth. Maent yn aelodau arbennig o'r Llu Wrth Gefn. Rhaid i Filwyr Wrth Gefn a Noddir ddilyn hyfforddiant a chytuno y gellir eu galw i wasanaethu, fel y bydd modd galw arnynt i barhau i gynorthwyo'r Weinyddiaeth Amddiffyn gydag ymgyrchoedd, trwy ddefnyddio'u sgiliau sifil, ond fel staff y gwasanaethau arfog.



# Milwyr Wrth Gefn: gweithdrefnau ymfyddino a gweithdrefnau cychwynnol ar gyfer eu galw i wasanaethu

**Gelwir yr arfer o alw ar Filwyr Wrth Gefn i wasanaethu'n llawn amser yn y Lluoedd Arfog rheolaidd yn 'ymfyddino'. Gellir eu galw i wasanaethu ar gyfer brwydro mewn rhyfel a chymryd rhan mewn unrhyw ymrwymiad gweithredol arall y disgwylir i staff Rheolaidd ei gyflawni, a hefyd ar gyfer ymfyddino cyffredinol ar adegau o argyfwng Cenedlaethol neu fygythiad yn erbyn y DU.**

O safbwynt galw Milwyr Wrth Gefn i wasanaethu, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn eu dewis trwy ddefnyddio'r 'broses ddethol ddeallus'. Caiff y broses hon ei seilio ar sgiliau a phrofiad Milwyr Wrth Gefn, eu hamgylchiadau personol a'u hamgylchiadau cyflogaeth. Fodd bynnag, ar brydiau efallai y bydd anghenion y Llywodraeth a'r Lluoedd Arfog yn fawr, a byddai'r broses ymfyddino yn newid wedyn i adalw gorfodol.

## Y weithdrefn gychwynnol ar gyfer galw Milwyr Wrth Gefn i wasanaethu

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn dweud wrth bob Milwr Wrth Gefn pryd a ble y dylai ymbresenoli ar gyfer dyletswydd a dilyn yr hyfforddiant cyn-fyddino. Dylai Milwyr Wrth Gefn ddweud wrth eu cyflogwr sifil cyn gynted ag y cânt rybudd ynglŷn â'u galwad i wasanaethu. Os yw Gweinidog Gwladol y Lluoedd Arfog wedi arwyddo'r gorchymyn

galw, bydd yr Ysgrifennydd Milwrol yn anfon hysbysiad galw at gyflogwr y Milwr Wrth Gefn yn rhoi cyfarwyddyd i'r Milwr Wrth Gefn fynd i ganolfan ymfyddino. Bydd pecyn gwybodaeth yn cael ei anfon gyda'r hysbysiad galw, a bydd hwn yn cynnwys manylion ynglŷn â sut i gyflwyno cais yn erbyn yr hysbysiad a sut i hawlio cymorth ariannol.

## Cyfnod rhybudd ar gyfer ymfyddino

Ar gyfer ymrwymiadau gweithredol, byddai'r Lluoedd Arfog yn dymuno rhoi hyd at 90 diwrnod o rybudd pan fo modd. Fodd bynnag, byddai'r cyfnod hwn yn cael ei leihau yn unol â phwysigrwydd ac arwyddocâd yr alwad.

## Pecynnau gwybodaeth i gyflogwyr

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn anfon pecyn arbennig at bob cyflogwr sy'n cyflogi Milwyr Wrth Gefn a alwyd i ymfyddino. Bydd y pecyn hwn naill ai'n cael ei anfon yn syth atoch chi, y cyflogwr, neu bydd yn cael ei gynnwys ym mhecyn y Milwr Wrth Gefn, a dylai eich gweithiwr ei roi i chi. Bydd y pecyn yn nodi'r dyddiad y bydd yn rhaid i'r Milwr Wrth Gefn ddilyn hyfforddiant a bydd yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- am ba hyd y gallai dyletswyddau'r Milwr Wrth Gefn bara
- eich hawliau a'ch rhwymedigaethau statudol fel cyflogwr – e.e. o safbwynt tâl, pensiynau ac ailsefydlu'r gweithiwr ar ôl i'r ymfyddino ddod i ben
- cymorth ariannol posibl i gyflogwyr
- manylion cyswllt

## Eithrio a gohirio

Fel cyflogwr, mae gennych yr hawl i apelio yn erbyn cais i alw Milwr Wrth Gefn i wasanaethu os credwch y byddai hynny'n achosi niwed difrifol i'r busnes, er enghraifft:

- pe bai yna risg o niwed ariannol, e.e. colli gwerthiannau, marchnadoedd neu enw da
- pe bai'r gallu i gynhyrchu nwyddau neu ddarparu gwasanaethau'n cael ei leihau
- pe bai yna effaith ar waith ymchwil a datblygu mewn perthynas â chynhyrchion, gwasanaethau neu brosesau newydd

Fel milwr wrth gefn, mae gennych yr hawl i apelio pe baech yn cael eich galw i wasanaethu ar adeg anodd (e.e. os ydych yn gofalu am rywun neu os ydych mewn addysg amser llawn).

**Gallwch gyflwyno cais i wneud y canlynol:**

- gohirio'r ymfyddino am hyd at flwyddyn – byddwch yn cael dyddiad newydd ar gyfer ymbresenoli ar gyfer dyletswydd
- cael eithriad am flwyddyn neu fwy – ni fyddwch yn cael eich galw eto hyd nes i'r cyfnod eithrio ddod i ben
- canslo (diddymu) yr ymfyddino os ydych eisoes wedi cael eich ymfyddino, ond nid yw hyn yn cynnig unrhyw eithriad

Os hoffech wneud cais i eithrio neu ohirio'r alwad ar ran eich gweithiwr, dylech wneud hynny o fewn saith diwrnod i gyhoeddi'r hysbysiad ymfyddino. Os nad yw hyn yn bosibl, dylech ofyn i'r Swyddog Dyfarnu a benodir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn am ganiatâd i gyflwyno cais hwyr i ohirio. Mae pob achos o ymfyddino'n orfodol, ac os na fyddwch chi neu eich Milwr Wrth Gefn yn cyflwyno apêl o fewn yr amser a nodir, bydd yn ofynnol i'r Milwr Wrth Gefn ymbresenoli ar gyfer dyletswydd ar y dyddiad a nodir yn yr hysbysiad galw. Rhestrir manylion y Swyddog Dyfarnu a gwybodaeth am sut i gyflwyno cais yn yr hysbysiad galw.

## Cronni gwyliau yn ystod cyfnod ymfyddino

Nid yw'n ofynnol i chi ganiatáu i Filwyr Wrth Gefn a gyflogir gennych gronni gwyliau tra byddant ar ddyletswyddau ymfyddino, oherwydd byddant yn cronni gwyliau gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Ar ôl iddynt ddychwelyd, mae gennych hawl i roi gwyliau iddynt ar sail pro rata o'r dyddiad y gwnaethant ddychwelyd hyd at ddiwedd y flwyddyn galendr.

# Eich hawliau a'ch cyfrifoldebau fel cyflogwr Milwr Wrth Gefn

**Mae gan gyflogwyr hawl i reoli Milwyr Wrth Gefn a gyflogir ganddynt yn unol ag anghenion y sefydliad, ond dylid cydbwyso hyn â rhai cyfrifoldebau cyfreithiol yn ymwneud â'u hatebolrwydd i ymfyddino a'u hailsefydlu yn y gwaith wedyn.**

## Eich hawliau chi fel cyflogwr

Caiff Milwyr Wrth Gefn eu hannog i roi gwybod i'w cyflogwr eu bod yn aelod o'r Lluoedd Arfog Wrth Gefn. Ym Mhrydain Fawr, os ydych yn recriwtio gweithiwr sy'n Filwr Wrth Gefn – neu pe bai gweithiwr presennol yn dewis mynd yn filwr Wrth Gefn – bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ysgrifennu atoch dan y system 'Hysbysu Cyflogwyr' i gadarnhau bod y gweithiwr dan sylw yn aelod o'r Lluoedd Wrth Gefn. Fodd bynnag, nid yw'r sianel hysbysu ffurfiol hon yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon. Y Milwr Wrth Gefn a fydd yn gyfrifol am eich hysbysu ynglŷn â'i statws (oni bai ei fod yn gyn-staff Rheolaidd).

Dylai cyflogwyr wirio contractau cyflogaeth, oherwydd efallai y bydd yn rhaid i'r rhain gael eu newid ar gyfer gweithwyr newydd sy'n Filwyr Wrth Gefn, e.e. os yw cael ail swydd fel arfer yn groes i bolisi'r cwmni.

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn anelu at roi hyd at 90 diwrnod o rybudd ynglŷn ag ymfyddino gweithiwyr.

**Mae'r hawliau eraill sydd gan gyflogwyr yn cynnwys:**

- apelio yn erbyn yr ymfyddino pe bai'n niweidio'r busnes
- cymorth ariannol ar gyfer rhai costau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i weithiwr arall
- peidio â thalu cyflog na buddion cysylltiedig i'r Milwr Wrth Gefn – e.e. car cwmni – yn ystod ei gyfnod ymfyddino
- cymhellion ariannol o hyd at £6,000 y flwyddyn ar gyfer pob Milwr Wrth Gefn a gaiff ei ymfyddino. Bydd modd i Fusnesau Bach a Chanolig ac elusennau a phartneriaethau o faint cyfatebol hawlio hyd at £500 ar gyfer pob mis y caiff y Milwr Wrth Gefn a gyflogir ganddynt ei ymfyddino
- dim rhwymedigaeth i roi gwyliau blynyddol ychwanegol ar gyfer ymrwymiadau hyfforddi. Mae nifer o gyflogwyr yn sylweddoli'r manteision a ddaw yn sgil hyfforddiant o'r fath ac yn dewis rhoi gwyliau blynyddol ychwanegol.




## Eich rhwymedigaethau fel cyflogwr

Ar ôl i Filwr Wrth Gefn ddychwelyd o'i gyfnod ymfyddino, mae gennych rwymedigaeth gyfreithiol i'w ailgyflogi yn ei rôl wreiddiol. Os na allwch ailgyflogi'r Milwr Wrth Gefn yn ei rôl wreiddiol, rhaid i chi gynnig swydd amgen addas iddo ar yr un telerau ac amodau gwasanaeth (neu mor agos ag y bo'n ymarferol bosibl).

Ni allwch ddiswyddo Milwr Wrth Gefn yn unswydd ar sail ei ddyletswyddau yn y Gwasanaeth Wrth Gefn neu ei atebolrwydd i gael ei ymfyddino. Os gwnewch hynny, gall y gweithiwr gyflwyno cais i Bwyllgor Ailsefydlu, sy'n gweithio mewn modd tebyg i dribiwnlys diwydiannol.

Gellir cynnwys Milwyr Wrth Gefn yn y gronfa dileu swyddi os yw hyn yn angenrheidiol oherwydd lleihad mewn busnes neu gau adran neu gangen. Fodd bynnag, dylid trin pob gweithiwr yn yr un ffordd, ac ni ddylai meini prawf mewn perthynas â dileu swyddi wahaniaethu yn erbyn Milwyr Wrth Gefn ar sail eu gwasanaeth Wrth Gefn neu eu hatebolrwydd i gael eu galw i wasanaethu.

Os penderfynir dileu swydd Milwr Wrth Gefn a gyflogir gennych ac yntau wedi dychwelyd o'i wasanaeth ymfyddino yn ddiweddar, mae yna rai ystyriaethau ychwanegol y dylid eu cadw mewn cof – h.y. a gaiff y Milwr Wrth Gefn ei amddiffyn o hyd gan y cyfnod 13, 26 neu 52 wythnos, yn ddibynnol ar hyd ei wasanaeth blaenorol.

# Cymorth ariannol i gyflogwyr

**Gallwch hawlio cymorth ariannol pe bai Milwr Wrth Gefn a gyflogir gennych yn cael ei alw i wasanaethu. Ni fydd cyflogwyr yn talu cyflog na chyfraniadau pensiwn y gweithiwr tra bydd yn absennol o'i waith – y Weinyddiaeth Amddiffyn a fydd yn talu'r rhain. Fodd bynnag, bydd angen i'r cyflogwr newid ei system gyflogres.**

Gall y cyflogwr wneud cais i ohirio neu ganslo'r ymfyddino pe bai'n arwain at niwed difrifol i'r busnes.

## Gall cyflogwyr hawlio cymorth ariannol ar gyfer y canlynol:

- y gost o gyflogi gweithiwr arall dros dro, os yw'n fwy na chyflog y Milwr Wrth Gefn (hyd at £110 y diwrnod)
- costau hysbysebu a ffioedd asiantaeth ar gyfer dod o hyd i weithiwr arall yn ei le
- cyfnod trosglwyddo a chyfnod cymryd drosodd (5 diwrnod cyn ac ar ôl yr ymfyddino)
- 75% o gost unrhyw ddillad arbenigol ar gyfer y gweithiwr arall (hyd at £300)
- y gost o hyfforddi'r gweithiwr arall (hyd at £2,000)
- goramser, os yw cost y goramser yn fwy nag enillion y Milwr Wrth Gefn ac os bydd gweithwyr eraill yn cyflawni'r gwaith
- hyfforddiant y bydd y Milwr Wrth Gefn ei angen i barhau â'i swydd ar ôl iddo ddychwelyd
- cymorth ychwanegol ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint
- treuliau hunangyflogedig o hyd at £2,000 ar gyfer unig fasnachwr, Partner neu Gyfarwyddwr Cwmni

**Gall cyflogwyr hawlio £500 y mis yn ychwanegol at y costau o ddod o hyd i weithiwr arall a dal gafael ar y Milwr Wrth Gefn, oni bai bod y ddau bwynt canlynol yn berthnasol:**

- roedd trosiant blynyddol y sefydliad yn fwy na £25.9 miliwn yn y 12 mis cyn i'r Milwr Wrth Gefn gael ei alw i wasanaethu ac roedd gan y sefydliad fwy na 250 o weithwyr neu bartneriaid ar ddyddiad yr ymfyddino

Gelwir y rhain yn gymelldaliadau i gyflogwyr.

### Ni all cyflogwyr hawlio'r canlynol:

- colledion mewn elw, trosiant neu enw da
- cyflog neu gyfraniadau pensiwn y Milwr Wrth Gefn os bydd y sefydliad yn parhau i'w dalu

### Sut i hawlio

Lawrlwythwch a llenwch y ffurflen hawlio. Ewch ati i'w hargraffu, ei llofnodi, a naill ai ei sganio a'i hanfon atom trwy e-bost, neu ei phostio atom. Mae'r cyfeiriadau ar y ffurflen.

### Pryd i hawlio

Gall cyflogwyr gyflwyno hawliad cyn i'r Milwr Wrth Gefn adael, ond ni fydd y sefydliad yn cael taliad hyd nes y bydd y Milwr Wrth Gefn wedi cychwyn ar ei wasanaeth. Rhaid i gyflogwyr hawlio o fewn 4 wythnos ar ôl diwrnod olaf gwasanaeth y Milwr Wrth Gefn, ond gallant hawlio costau wrth iddynt ddigwydd – nid oes yn rhaid eu hawlio i gyd ar unwaith. Dylid hawlio costau hyfforddiant o fewn 8 wythnos i ddiwedd yr hyfforddiant.

# Cymorth ariannol i Filwyr Wrth Gefn

**Os cewch eich galw i wasanaethu, gallwch hawlio cymorth ariannol i dalu am y gwahaniaeth rhwng eich cyflog sifil a'ch cyflog yn y gwasanaethau arfog, a chost unrhyw fuddion mewn nwyddau y bydd eich cyflogwr yn rhoi'r gorau iddynt. Y cyfanswm y gallwch ei hawlio yw £400 y diwrnod.**

Os byddwch yn gwasanaethu fel ymgynghorydd meddygol gyda gwasanaethau meddygol y lluoedd amddiffyn, gallwch hawlio hyd at £822 y diwrnod.



## Buddion cwmni

Gallwch hawlio buddion a roddir i chi fel arfer gan eich cyflogwr, yn cynnwys:

- yswiriant iechyd neu ofal meddygol
- yswiriant bywyd
- ffioedd addysg ar gyfer plant dibynnol
- llety
- os bydd yn rhaid i chi ddychwelyd car cwmni a ddefnyddir gan eich partner (e.e. gŵr neu wraig), eich plant neu berthnasau dibynnol, gallwch hawlio £10.70 y diwrnod (oddeutu £325 y mis)

## Cyfraniadau pensiwn

**Yn ystod eich cyfnod ymfyddino, gallwch wneud y canlynol:**

- gofyn i'ch diwrnodau ymfyddino gyfrif tuag at Gynllun Pensiwn y Lluoedd Arfog
- parhau i gyfrannu at eich pensiwn personol neu eich pensiwn gwaith (bydd y Weinyddiaeth

Amddiffyn yn talu eich cyfraniadau cyflogwr)

Os ydych yn hunangyflogedig, yn Bartner neu'n Gyfarwyddwr Cwmni, ac os nad ydych yn hawlio dyfarniad cyflogwr, gallwch hawlio'r canlynol:

- y gwahaniaeth rhwng y cyflog a gewch yn y gwasanaethau arfog a'ch enillion yn sgil eich busnes
- hyd at £2,000 o gostau busnes yn sgil rhoi'r gorau i fasnachu
- ffioedd asiantaeth a hysbysebu ar gyfer dod o hyd i rywun yn eich lle a hyfforddi'r unigolyn hwnnw

Ni allwch hawlio treuliau yr oeddech eisoes yn eu talu cyn eich cyfnod ymfyddino. Er enghraifft, ni allwch hawlio'r canlynol (oni bai bod y gost wedi digwydd o ganlyniad i'ch ymfyddino):

- gofal ar gyfer plentyn neu berthynas dibynnol
- gofal ar gyfer anifail anwes
- yswiriant tŷ
- cynnal a chadw eich cartref

**Sut i hawlio**

Bydd gweithwyr yn cael cyfarwyddiadau yn y pecyn ymfyddino ynglŷn â sut i hawlio. Os ydych yn hunangyflogedig, yn bartner neu'n gyfarwyddwr cwmni, defnyddiwch y ffurflen hawlio ar gyfer cyflogwyr.

**Pryd i hawlio**

Gallwch gyflwyno hawliad unrhyw adeg ar ôl i'ch gwasanaeth gychwyn a hyd at 4 wythnos ar ôl iddo ddod i ben.

**Apelio yn erbyn cais a wrthodwyd**

Os caiff eich hawliad ei wrthod, gallwch gyflwyno apêl. Mae gan y cyflogwr a'r Milwr Wrth Gefn yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad – yn erbyn penderfyniad ariannol neu yn erbyn hysbysiad galw i wasanaethu. Bydd yr hysbysiad ynglŷn â sut i apelio yn cael ei gynnwys gydag unrhyw benderfyniad.



# Y Bartneriaeth Pontio Gyrfa (CTP)

**Y Bartneriaeth Pontio Gyrfa yw'r darparwr swyddogol mewn perthynas ag ailsefydlu aelodau'r Lluoedd Arfog. Mae'r Bartneriaeth yn cynnig gwasanaethau ailsefydlu i'r rhai sy'n gadael y Llynges Frenhinol, y Fyddin, y Llu Awyr Brenhinol a'r Môr-Filwyr Brenhinol. Gall holl aelodau'r Lluoedd Arfog elwa ar gymorth y Bartneriaeth ar ôl iddynt adael y gwasanaethau arfog, ni waeth am faint o amser y buont yn gwasanaethu.**

Hefyd, mae'r Bartneriaeth yn gweithredu fel gwasanaeth cyfryngol ar gyfer cyflogwyr sy'n dymuno cyflogi pobl sydd wedi gadael y gwasanaethau arfog. Hyd yn hyn, mae wedi cynorthwyo cannoedd ar filoedd o bobl sydd wedi gadael y gwasanaethau arfog i bontio i fywyd sifil ac mae wedi cefnogi miloedd o sefydliadau sy'n awyddus i gyflogi cyn-staff y gwasanaethau arfog.

## Sut mae'r Bartneriaeth Pontio Gyrfa yn helpu pobl sydd wedi gadael y gwasanaethau arfog

Gan ddibynnu ar hyd y gwasanaeth, gall y Bartneriaeth gynnig gwasanaethau ailsefydlu rhad ac am ddim i bob rheng o Luoedd Arfog y DU, yn cynnwys y Llynges a'r Môr-filwyr Brenhinol, y Fyddin Brydeinig a'r Llu Awyr Brenhinol – ei nod yw eich helpu i bontio mor ddidrafferth â phosibl.

Gall gynnig cymorth hyblyg ddwy flynedd cyn i chi adael y gwasanaethau arfog ac am ddwy flynedd ar ôl i chi adael, gan roi i chi'r holl offer y byddwch eu hangen i'ch marchnata eich hun yn hyderus ymhlith cyflogwyr a gwneud yn fawr o fywyd y tu allan i'r lluoedd arfog.

O lunio CV i ddysgu sgiliau cyfweld, ynghyd ag ymchwilio i swyddi a gwneud cais am swyddi – gall yr hyn mae'r Bartneriaeth yn ei gynnig eich helpu nid yn unig gyda'ch swydd sifil gyntaf, ond hefyd drwy gydol eich oes gweithio.

## Yr hyn y gall y Bartneriaeth Pontio Gyrfa ei wneud i gyflogwyr

Mae'r rhai sy'n gadael y gwasanaethau arfog yn weithwyr hynod fedrus, llawn ymroddiad a galluog, a byddant yn meddu ar ystod o sgiliau trosglwyddadwy. Does dim syndod bod galw mawr amdanynt ymhlith nifer o sefydliadau – a'r newyddion da yw ein bod yn ei gwneud hi'n hawdd i chi ganfod a chyflogi'r bobl iawn.



# Y Gyfarwyddiaeth Hyfforddiant, Addysg, Sgiliau, Recriwtio ac Ailsefydlu (TESRR)

**Mae'r Gyfarwyddiaeth Hyfforddiant, Addysg, Sgiliau, Recriwtio ac Ailsefydlu yn cynrychioli'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac mae'n gyfrifol am bolisi ailsefydlu'r tri gwasanaeth ac am ddarparu gwasanaethau ailsefydlu trwy gyfrwng y cytundeb partner gyda Right Management. Prif rôl y Gyfarwyddiaeth Hyfforddiant, Addysg, Sgiliau, Recriwtio ac Ailsefydlu yw cynorthwyo'r rhai sydd wedi gadael y gwasanaethau arfog i bontio'n llwyddiannus i fywyd sifil.**

## I ategu'r brif rôl hon, mae'r Cyfarwyddwr Ailsefydlu yn gyfrifol am y canlynol:

- Datblygu a darparu polisi a gweithdrefnau ailsefydlu ar gyfer y tri gwasanaeth ar ran Cyfarwyddwr Cyffredinol Personél y Gwasanaethau Arfog (Polisi).
- Rheoli a gweithredu'r contract dan y cytundeb partneru o fewn y Bartneriaeth Pontio Gyrfa, gan sicrhau perfformiad a gwerth am arian, a thrwy hynny gynnig y gwasanaeth gorau posibl yn y modd mwyaf cost-effeithiol i'r rhai sydd wedi gadael y gwasanaethau arfog.

## Mae'r egwyddorion canlynol yn sail i Bolisi Ailsefydlu'r Tri Gwasanaeth:

- rhoi mynediad i holl staff y Lluoedd Arfog at wybodaeth a chyngor amserol a chywir yn ymwneud ag ailsefydlu. Ar gyfer y rhai sy'n gadael y gwasanaethau arfog, rhoi mynediad iddynt at ddarpariaeth ailsefydlu seiliedig ar arferion gorau, sy'n bodloni anghenion unigol
- darparu cymorth ailsefydlu cynyddol, o ran y ddarpariaeth a'r amser, yn ôl hyd y gwasanaeth
- darparu gwasanaethau ailsefydlu dan gontract, yn cynnwys cyngor, gweithdai, hyfforddiant a help i chwilio am swyddi; dyma wasanaethau hyblyg, ymatebol ac effeithiol a fydd yn bodloni anghenion unigol staff y gwasanaethau arfog, o ran hygyrchedd a chynnwys
- darparu cymorth ailsefydlu i bawb sy'n gadael y gwasanaethau arfog
- sicrhau bod lwfansau ailsefydlu priodol ar gael i gynorthwyo'r rhai sy'n gadael y gwasanaethau arfog

# Yr Adran Gwaith a Phensiynau

**Mae Tîm Cyflogwyr a Phartneriaeth Cenedlaethol yr Adran Gwaith a Phensiynau yn canolbwyntio ar weithio gyda chyflogwyr i symud pobl i waith neu'n nes at waith, gan feithrin dealltwriaeth o anghenion cyflogwyr a chan eu helpu yr un pryd i lunio arferion recriwtio sy'n cefnogi cwsmeriaid yr Adran Gwaith a Phensiynau. Os yw cyflogwyr yn barod i gefnogi blaenoriaethau'r Tîm Cyflogwyr a Phartneriaeth Cenedlaethol, cânt gynnig gwasanaeth recriwtio pwrpasol ag un man cyswllt. Mae rhaglen y bartneriaeth yn mynd i'r afael â heriau allweddol a wynebir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn arbennig lleihau bylchau cyflogaeth ymhlith grwpiau dan anfantais a chynyddu amrywiaeth wrth recriwtio.**

Mae'r Tîm Cyflogwyr a Phartneriaeth Cenedlaethol yn gweithio gyda chydweithwyr mewn Canolfannau Byd Gwaith lleol i ddatblygu rhaglenni partneriaeth lleol. Mae'r Tîm yn hwyluso perthnasoedd lleol ac yn gweithio gydag Ardaloedd yr Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn bodloni disgwyliadau cyflogwyr. Trwy weithio'n agos gyda chyswllt cyflogwyr cenedlaethol yr Adran Gwaith a Phensiynau, gall y Tîm Cyflogwyr a Phartneriaeth Cenedlaethol fonitro pa mor effeithiol yw'r rhaglenni a chael gwybodaeth am astudiaethau achos a hanesion llwyddiant.



# Cymdeithas y Swyddogion (OA)

**Mae Cymdeithas y Swyddogion wedi ymrwymo i sicrhau y gall cyn-swyddogion a'u dibynyddion fyw gydag urddas ac annibyniaeth. Mae'r Gymdeithas yn cynnig help a chyngor gydag amrywiaeth o faterion yn ymwneud â Grantiau a Lles.**

Cenhadaeth Cymdeithas y Swyddogion yw hyrwyddo lles y rhai a oedd â chomisiwn yng Ngwasanaethau Arfog Ei Mawrhydi, a'u dibynyddion.

Nod Cymdeithas y Swyddogion yw cyfoethogi ac ychwanegu gwerth at fywydau cyn-swyddogion a'u dibynyddion. Mae wedi ymrwymo i weithio gydag asiantaethau ac elusennau eraill (rhai'r lluoedd arfog a rhai sifil) er mwyn cynnig gwasanaeth teg ac anfarnol i gynifer ag y bo modd o bobl gymwys. Cred y Gymdeithas mewn bod yn dryloyw yn y ffordd mae'n gweithio, ynghyd â bod yn atebol i gyllidwyr a rhanddeiliaid eraill.

Bydd Cymdeithas y Swyddogion yn ystyried ceisiadau am gymorth ariannol, cyn belled ag y bydd rheolau cymhwystra wedi'u bodloni. Mae'r cymorth ariannol yn ddibynnol ar brawf modd ac ni all ddisodli rhwymedigaethau statudol Awdurdodau Lleol, ond bydd Pwyllgor Grantiau a Lles Cymdeithas y Swyddogion yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.

Os na fydd modd i Gymdeithas y Swyddogion roi cymorth ariannol, gall gynnig cyngor i chi a'ch arwain at sefydliadau eraill a fydd, efallai, yn gallu gwneud hynny.



## Sut gall Cymdeithas y Swyddogion helpu

Os ydych yn cael anawsterau ariannol oherwydd rhyw angen annisgwyl, neu os yw eich amgylchiadau'n ei gwneud hi'n arbennig o anodd i chi ymdopi, efallai y bydd modd i Gymdeithas y Swyddogion gynnig cymorth ariannol i chi. Gall y cymorth ariannol roi:

- Lwfans blynyddol ar gyfer bwyd a dillad
- Help tuag at gymhorthion ar gyfer pobl anabl
- Help untro ar gyfer prynu nwyddau gwyn neu frown
- Ffioedd atodol cartrefi gofal

Mae Cymdeithas y Swyddogion yn anelu at ddelio gyda phob cais yn sensitif, yn ddi-oed ac yn gyfrinachol. Bydd yn trefnu i weithwyr achos gwirfoddol ymweld â'ch cartref – cyn-swyddogion eu hunain, yn aml – a bydd y rhain yn anfon adroddiadau at Adran Grantiau a Lles Cymdeithas y Swyddogion er mwyn i'r Pwyllgor allu ystyried rhoi grantiau neu gymorth arall.

Hefyd, gall Cymdeithas y Swyddogion eich arwain at wasanaethau a chyngor i helpu gyda'r pethau mae pob un ohonom yn eu hwynebu o dro i dro, er enghraifft: gwneud cais am fudd-daliadau, materion cyfreithiol, problemau perthynas, cyfrifoldebau gofalu, unigrwydd, straen a gorbryder.

### Cymdeithas y Swyddogion: Yr Alban

Un o swyddogaethau allweddol Cymdeithas y Swyddogion: Yr Alban yw cynnig cymorth cyflogaeth, ond mae lles yn parhau i wneud defnydd mawr o'i hadnoddau. I gydnabod y gwasanaeth a roddwyd gan y swyddogion, mae'r Cyfarwyddwyr wedi ymrwymo i'w cefnogi nhw, eu gweddwon a'u dibynyddion pan fyddant mewn angen.

Sefydliad galluogi yw'r Gymdeithas hon. Ei gweledigaeth yw y bydd (cyn) swyddogion sy'n chwilio am waith neu swydd newydd yn ceisio arbenigedd y Gymdeithas i'w cynorthwyo i ddatblygu a chyflawni eu dyheadau o ran cyflogaeth. Bydd y Gymdeithas yn gwella gallu'r bobl hyn i ddod o hyd i waith o'u dewis, gan eu cynorthwyo yr un pryd trwy'r cyfnod pontio.

Mae Cymdeithas y Swyddogion: Yr Alban yn rhoi pa bynnag help ag y gall i'r rhai sydd mewn angen. Weithiau, bydd hyn yn golygu help a chyngor tymor hir: cyflogaeth, adleoli, pontio gyrfa neu wasanaeth ymgynghori ynghylch gyrfa. Weithiau, bydd yn golygu help tymor byr er mwyn cynorthwyo pobl dros y rhwystrau anochel hynny a ddaw i'w rhan. Gall y Gymdeithas eich helpu gyda chymorth ariannol, cymorth symudedd, gofal seibiant a mentrau cyflogadwyedd.



# Porth y Cyn-filwyr

**Gyda nifer o sefydliadau'n cefnogi cymuned y Lluoedd Arfog, nod Porth y Cyn-filwyr yw bod yn fan cyswllt cyntaf i Gyn-filwyr a'u teuluoedd pan fyddant angen cymorth.**

Mae Porth y Cyn-filwyr yn cynnwys consortiwm o sefydliadau ac elusennau'r Lluoedd Arfog, yn cynnwys y Lleng Brydeinig Frenhinol, SSAFA – elusen y Lluoedd Arfog, Poppyscotland, Combat Stress a Connect Assist.

Mae'r cysylltiad sydd gan y Porth gyda sefydliadau gwybodaeth a phartneriaid cyfeirio hollbwysig eraill – oddi mewn ac oddi allan i sector y Lluoedd Arfog – yn golygu y gall arwain pobl at y sefydliad iawn er mwyn cael help.

Mae sawl aelod o dîm y Porth yn Gyn-filwyr eu hunain, felly maent yn deall y problemau mae pobl yn eu hwynebu ar ôl gadael y Lluoedd Arfog. Maent yn gweithio gyda phobl fesul un, gan eu cysylltu â'r cymorth iawn cyn gynted â phosibl.



# RFEA – Elusen Cyflogaeth y Lluoedd Arfog

**Mae RFEA yn cynnig cymorth gydol oes a all newid bywydau, ynghyd â chyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd swyddi i'r rhai sydd wedi gadael y gwasanaethau arfog ac i Gyn-filwyr, ni waeth be fo'u hamgylchiadau, eu rheng, hyd eu gwasanaeth neu eu rheswm dros adael.**

Mae'n cynnig cymorth cyflogadwyedd a chyflogaeth i Gyn-filwyr o oedran gweithio yn y DU. Amcangyfrifir ar hyn o bryd fod miliwn o Gyn-filwyr o oedran gweithio yn byw yn y DU.

Mae RFEA yn cynorthwyo Cyn-filwyr trwy eu hoes, yn cynnwys y rhai sydd wedi gwasanaethu am gyfnod byr ac sydd yn yr ystod oedran 18-24 oed, hyd at Gyn-filwyr hŷn. Cydnabyddir fwyfwy fod pobl dros 50 oed yn wynebu heriau llawer mwy wrth ddod o hyd i waith.

Mae gwaith RFEA yn cynnwys ymyrraeth gynnar, gan gynorthwyo Cyn-filwyr i ddod o hyd i swyddi newydd, yn aml pan nad ydynt wedi llwyddo i ddod o hyd i swyddi gyda chymorth sifil cyffredinol. Mae'n rhwystro Cyn-filwyr o oedran gweithio rhag bod yn ddi-waith yn y tymor hir, fel y gallant gael incwm a chynnig sefydlogrwydd iddynt hwy eu hunain a'u teuluoedd.

Mae RFEA yn gweithio mwyfwy gyda phobl ddi-waith sy'n wynebu rhwystrau mwy o ran cyflogaeth ac sydd â siwrnai hir o'u blaen yn ôl i'r gwaith. Er mwyn gwneud hyn, mae'n cysylltu gydag elusennau lles, gofal iechyd a thai, yn ogystal â gweithio gyda Chyn-filwyr yn y sector cyfiawnder troseddol.



# Forces Families Jobs

**Platfform cyflogi a hyfforddi yw Forces Families Jobs. Ei nod yw cynorthwyo teuluoedd y Lluoedd Arfog i ddod o hyd i waith ystyrlon a darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu.**

Caiff Forces Families Jobs ei gyflwyno gan bartneriaeth tri-gwasanaeth rhwng Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges (NFF), Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin (AFF) a Ffederasiwn Teuluoedd y Llu Awyr Brenhinol (RAF-FF).

## Pwy all ei ddefnyddio?

Gall pob sefydliad sydd wedi arwyddo Cyfamod y Lluoedd Arfog hysbysebu ei gyfleoedd yn rhad ac am ddim. Mae'n gyfle i hyrwyddo eich sefydliad a dangos eich ymrwymiad i gyflawni Cyfamod y Lluoedd Arfog. Bydd modd i chi hysbysebu eich swyddi'n rhad ac am ddim, yn ogystal â chael mynediad at gronfa ddata fawr o ymgeiswyr hynod fedrus sy'n cynnwys aelodau teuluol y Lluoedd Arfog o'r tri gwasanaeth.

Darparwyr Hyfforddiant sy'n cynnig cyfleoedd hyfforddi neu gyfleoedd gyrfa yn ddi-dâl a chwmnïau sy'n cynnig disgownt ar gyrsiau hyfforddi yn benodol ar gyfer teuluoedd y Lluoedd Arfog.

www.forcesfamiliesjobs.co.uk



# Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges

**Diben Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges yw rhoi cyfle i holl staff y Llynges Frenhinol, y Môr-filwyr Brenhinol a'r Fflyd Frenhinol Atodol sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, a'u teuluoedd, gael lleisio'u barn a chael eu clywed gan y bobl sydd mewn grym. Ei nod yw cael gwared ag anfantais a all ddeillio o fywyd yn y gwasanaethau arfog.**

Gweledigaeth y Ffederasiwn yw y bydd cymuned Gwasanaeth y Llynges sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd yn cael ei thrysori, yn cael ei thrin yn deg a chyda pharch, ac yn gallu ffynnu. Mae'n cydnabod bod gan bobl amgylchiadau personol, strwythurau teuluol a chymunedau amrywiol tu hwnt, a'i nod yw cynnig gwasanaeth sydd wedi'i deilwra'n briodol.

Mae'r Ffederasiwn yn rhoi tri phrif ddull ar waith:

- Dysgu am brofiad teuluoedd Gwasanaeth y Llynges, a chynrychioli eich barn a'ch pryderon ar lefel Weinidogol, a gerbron Gwasanaeth y Llynges, adrannau'r llywodraeth, darparwyr gwasanaethau sifil a rhanddeiliaid eraill, er mwyn llywio polisïau a newidiadau. Gall newid polisïau ar eich rhan

- Darparu gwybodaeth ac egluro'r system mewn modd symlach trwy gyfrwng ein gwefan, ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a'n cylchgrawn Homeport, a thrwy ymgysylltu â theuluoedd trwy'r ddesg ymholiadau neu wyneb yn wyneb

- Darparu cymorth eirioli pan fo hynny'n briodol, a chynnig gwasanaeth cyfeirio a chanllawiau i'ch helpu i ddod o hyd i'r ffordd orau o ddatrys problem

www.nff.org.uk



# Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin

**Llais annibynnol teuluoedd y Fyddin yw Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin, ac mae'n gweithio'n galed i wella ansawdd bywyd teuluoedd y Fyddin drwy'r byd – o ran yr holl agweddau mae 'ffordd o fyw' y Fyddin yn effeithio arnynt. Mae'n annibynnol ar y Fyddin ac mae'n cynnig cyngor cyfrinachol. Bydd yn delio â'ch ymholiad heb ddatgelu pwy ydych chi.**



Yn aml, mae Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin yn hollbwysig o ran sicrhau gwelliannau i deuluoedd y Fyddin, fel newidiadau i bolisïau'r Llywodraeth a pholisïau milwrol a newidiadau yn y modd y caiff pethau eu darparu i deuluoedd. Nid yw'r Ffederasiwn yn gwneud hyn ar ei ben ei hun; ei rôl yw tynnu sylw at broblemau yn y gadwyn awdurdod neu broblemau gyda darparwyr gwasanaethau, a gweithio gyda nhw a chydag asiantaethau eraill i wella'r cymorth a roddant i deuluoedd y gwasanaethau arfog.

Ymhellach, mae'r Ffederasiwn yn cynnig gwasanaeth cyfeirio er mwyn eich helpu i ddod o hyd i'r person iawn, ynghyd â darparu gwybodaeth ddefnyddiol i deuluoedd y Fyddin trwy ei wefan a'i gylchgrawn, Army&You.

Mae'r Ffederasiwn yn gweithio ar lefel leol yn uniongyrchol gyda theuluoedd a chomander lleol. Bydd yn siarad â Swyddogion Lles Uned, a gall ei arbenigwyr gynorthwyo i gysylltu â darparwyr gwasanaethau mae gan y Ffederasiwn gysylltiadau rhagorol â nhw.

Ar lefel strategol, mae Cyfarwyddwyr Canghennau'r Ffederasiwn yn gweithio gydag Uwch Gomander ac mae'r Prif Weithredwr yn gweithio gyda'r Llywodraeth a'r cadlywyddion uchaf eu statws yn y Fyddin.

Mae'r Ffederasiwn yn casglu tystiolaeth gan deuluoedd ynghylch materion sy'n peri pryder iddynt, gan goladu'r dystiolaeth hon mewn cronfa ddata. Mae'n defnyddio'r data i roi gwybod i'r gadwyn awdurdod beth sy'n peri pryder i deuluoedd; hefyd, mae'n llunio adroddiad chwarterol o'r enw Pryderon Teuluoedd.

Mae'r Ffederasiwn yn casglu gwybodaeth trwy siarad gyda theuluoedd naill ai wyneb yn wyneb allan yn y gymuned, neu ar y ffôn, trwy e-byst, trwy adborth ar ein gwefan, a thrwy fforymau gwe.

**Dyma rai o'r prif feysydd mae'r Ffederasiwn yn delio â nhw:**

- Tai
- Iechyd ac Anghenion Ychwanegol
- Addysg a Gofal Plant
- Milwyr Wrth Gefn y Fyddin
- Ymfyddino
- Materion Ariannol
- Gwaith a Hyfforddiant
- Bywyd Teuluol

Os ydych angen help gyda mater lleol, cysylltwch â'ch Cydlynydd lleol o fewn y Ffederasiwn; ar gyfer cyngor arbenigol, cysylltwch ag un o arbenigwyr y Ffederasiwn.

Bydd Cydlynwyr ac Arbenigwyr yn sôn am faterion wrth y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr priodol, pan fo angen tynnu sylw uwch gomander at faterion unigol.

Os ydych yn dymuno i rywbeth gael ei newid – unrhyw beth yn ymwneud â'ch bywyd fel un o deuluoedd y Fyddin – rhowch wybod i'r Ffederasiwn. Byddwn yn trafod ac yn cysylltu gyda chomanderiaid a darparwyr gwasanaethau, a gall eich tystiolaeth ein helpu i fynd i ben y Fyddin a'r Llywodraeth i gynnig bywyd gwell i deuluoedd y Fyddin.

Mae gan y Ffederasiwn gynrychiolwyr drwy'r byd – pa le bynnag y cewch eich anfon gyda'r Fyddin, fe fydd yna rywun y gallwch gysylltu ag ef. Ewch i'n tudalen 'cysylltu â ni' ar y wefan hon.

www.aff.org.uk



# Ffederasiwn Teuluoedd y Llu Awyr Brenhinol

**The RAF Families Federation provides all RAF personnel and their families – Regular and Reserve, single or married – with timely and professional support, assistance and an independent voice regarding issues or concerns that they may have.**

Mae Ffederasiwn Teuluoedd y Llu Awyr Brenhinol yn rhoi cefnogaeth, cymorth a llais annibynnol i staff y Llu Awyr Brenhinol a'u teuluoedd – Rheolaidd ac Wrth Gefn, sengl neu briod – ynghylch materion neu bryderon sydd ganddynt.

Mae'n casglu tystiolaeth ynghylch materion penodol trwy arolygon rheolaidd, trwy ymweliadau 'wyneb yn wyneb' â safleoedd ac unedau, a thrwy unigolion sy'n cysylltu â'r Ffederasiwn eu hunain.

Caiff yr wybodaeth bwysig a roddwch i'r Ffederasiwn ei thrin yn ddienw a'i rhannu gydag Uwch Dîm Arwain y Llu Awyr Brenhinol, uwch staff y Weinyddiaeth Amddiffyn, adrannau eraill y llywodraeth ac, yn aml, gyda gweinidogion y llywodraeth hefyd.

Mae hefyd yn cynnig gwasanaeth cyfeirio cyfrinachol ar gyfer gwybodaeth, cymorth a help penodol, gan sicrhau eich bod yn siarad â'r bobl iawn ac yn gofyn y cwestiynau iawn.

Mae'r Ffederasiwn yn gweithio'n galed gyda llu o sefydliadau ac asiantaethau eraill – o'r GIG i fanciau mawr – er mwyn sicrhau eich bod chi a'ch teulu'n cael eich trin yn deg ac nad ydych yn wynebu anfantais oherwydd natur unigryw y math o fywyd sydd i'w gael yn y gwasanaethau arfog.

Caiff Ffederasiwn Teuluoedd y Llu Awyr Brenhinol ei ariannu gan y Llu Awyr Brenhinol, ond nid yw'n rhan o'r gwasanaethau arfog ac mae'n annibynnol ar y gadwyn awdurdod. Mae contract y Ffederasiwn gyda Chymdeithas y Llu Awyr Brenhinol, fel rhan o'r cymorth eang a roddir i deulu'r Llu Awyr. Mae'r Gymdeithas yn enwog am y gwaith a wna gyda Chyn-filwyr y Llu Awyr Brenhinol a'u teuluoedd, ac mae hefyd yn cefnogi'r rhai sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd. Gwneir hyn yn uniongyrchol trwy amryfal wasanaethau lles, yn cynnwys Storybook Wings, Wi-Fi am ddim ar safleoedd y Llu Awyr Brenhinol, grantiau i unigolion a thimau chwaraeon y Llu Awyr Brenhinol, ailwampio tai cyswllt, a bod yn gefn i bartneriaid y rhai sy'n gweithio oddi cartref, yn ogystal â bod yn gyfrifol am gontract y Ffederasiwn Teuluoedd. O ran cyflawni'r contract, cefnogir y Gymdeithas gan Gronfa Les y Llu Awyr.

www.raf-ff.org.uk

# Gwasanaeth Disgownt y Weinyddiaeth Amddiffyn

**Mae Gwasanaeth Disgownt y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnig gostyngiadau ar-lein ac mewn siopau i'r rhai sy'n gweithio yn y Lluoedd Arfog, i Gyn-filwyr ac i Gymuned y Lluoedd Amddiffyn. Hefyd, mae Gwasanaeth Disgownt y Weinyddiaeth Amddiffyn yn caniatáu i gwmnïau bach a mawr fynd ati i gynnig gostyngiadau, ac mae'n annog cwmnïau lleol i gynnig gostyngiadau i Gymuned y Lluoedd Arfog.**

## Pwy sy'n gymwys?

Aelodau'r Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, Lluoedd Wrth Gefn, Gwŷr/Gwragedd/Partneriaid staff sy'n gwasanaethu, Cyn-filwyr Arfog Ei Mawrhydi (a fu'n gwasanaethu yn y gorffennol), Gweision Sifil y Weinyddiaeth Amddiffyn, Aelodau Teuluol mewn Profedigaeth, Gweddwon y rhai a laddwyd mewn rhyfeloedd neu'r rhai a fu'n gwasanaethu, Lluoedd y Cadetiaid (dros 16 oed), Staff NATO yn y DU.

## Gostyngiadau Ar-lein

Mae yna gannoedd o ostyngiadau ar-lein i'w cael a all helpu'r Lluoedd Arfog, Cyn-filwyr a Chymuned y Lluoedd Amddiffyn i arbed arian. Mae gennym nifer o ostyngiadau swyddogol ar gyfer siopau cenedlaethol mawr a hefyd mae gennym amrywiaeth eang o gynigion, yn cynnwys pethau fel gwyliau, ceir, diwrnodau allan, ffasiwn, anrhegion, yswiriant, ffonau, a llu o eitemau eraill. Gallwch gofrestru ar y wefan a defnyddio'r gostyngiadau ar-lein yn rhad ac am ddim.

## Cerdyn Braint y Lluoedd Amddiffyn

Cerdyn Braint y Lluoedd Amddiffyn yw'r cerdyn swyddogol y gellir ei ddefnyddio ar y stryd fawr i gael gostyngiadau. Mae'n galluogi'r rhai nad ydynt yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ar hyn o bryd i gael gostyngiadau, a bydd y bobl hyn yn cael cerdyn i ddangos eu bod yn arfer gweithio yn y Lluoedd Arfog neu eu bod yn rhan o Gymuned y Lluoedd Amddiffyn ar hyn o bryd, fel gŵr/gwraig/partner rhywun sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd er enghraifft. Caiff pob Cerdyn Braint ei bersonoli ar gyfer yr aelod ac mae'n costio £4.99 am aelodaeth 5 mlynedd.

# COBSEO

**Mae Cobseo, sef Conffederasiwn Elusennau'r Gwasanaethau Arfog, yn cynnig un man cyswllt ar gyfer rhyngweithio gyda'r Llywodraeth, gan gynnwys llywodraeth leol a'r Gweinyddiaethau Datganoledig; gyda Gweision y Frenhines; gyda'r Sector Preifat; ac, wrth gwrs, gydag aelodau eraill Cymuned y Lluoedd Arfog. Mae Cadeirydd Cobseo ac aelodau'r Pwyllgor Gweithredol yn cymryd rhan yn nifer o grwpiau a phwyllgorau'r Llywodraeth er mwyn sicrhau bod llais Cymuned y Lluoedd Arfog yn cael ei glywed ac er mwyn sicrhau bod eu pryderon a'u hanghenion penodol yn cael eu hystyried.**



Mae hyn yn galluogi Aelodau Cobseo i ryngweithio gyda phawb sydd â budd, gan eu galluogi'n arbennig i gydweithredu a chydweithio gydag eraill er mwyn darparu cymorth ar y lefel orau bosibl i'r buddiolwyr.

Amcanion penodol Cobseo yw cynrychioli, hyrwyddo a hybu buddiannau Cymuned y Lluoedd Arfog trwy wneud y canlynol:

- Cyfnewid a chydlynu gwybodaeth yn fewnol
- Pennu materion sy'n peri pryder cyffredin a chydlynu unrhyw gamau angenrheidiol a phriodol
- Gweithredu fel man cyswllt y gall asiantaethau allanol ei ddefnyddio i gysylltu ag Aelodau Cobseo
- Cynrychioli a chefnogi anghenion a barn y sefydliadau sy'n aelodau o'r conffederasiwn, yn unigol a chyda'i gilydd, ar lefel llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, a chydag asiantaethau cenedlaethol a rhyngwladol eraill

## Dyma werthoedd Cobseo:

Cytunwyd y dylai aelodau Conffederasiwn Elusennau'r Gwasanaethau Arfog rannu'r gwerthoedd a ganlyn:

- **Cefnogi** – dylai prif ffocws ein gweithgareddau ganolbwyntio ar gynorthwyo ein buddiolwyr;
- **Cydweithredu** – embrace every opportunity to collaborate with others, to enhance the support available to our beneficiaries;
- **Arloesi** – datblygu syniadau ac arferion newydd a fydd yn ychwanegu gwerth gwirioneddol at ein gweithgareddau ac a fydd yn cael effaith barhaol ar ein buddiolwyr;
- **Uniondeb** – gweithio mewn modd a fydd yn sicrhau ein bod yn agored ac yn onest, gan weithredu bob amser er budd pennaf ein buddiolwyr;
- **Atebolrwydd** – sicrhau bod ein safonau Llywodraethu a'n gweithdrefnau yn cydymffurfio'n llwyr ag arferion gorau;
- **Cydymffurfio** – sicrhau bod ein holl weithgareddau codi arian yn cyd-fynd â'r Cod Ymarfer Codi Arian, gan sicrhau enw da sector Elusennau'r Gwasanaethau Arfog

# Yr Ymddiriedolaeth Forces in Mind

**Mae'r Ymddiriedolaeth Forces in Mind (FiMT) yn dyfarnu grantiau, yn comisiynu gwaith ymchwil, yn cydlynu ymdrechion pobl/sefydliadau eraill, ac yn cefnogi prosiectau sy'n sicrhau atebion hirdymor i'r heriau mae Cymuned y Lluoedd Arfog yn eu hwynebu.**

Mae'r Ymddiriedolaeth Forces in Mind (FiMT) yn dyfarnu grantiau, yn comisiynu gwaith ymchwil, yn cydlynu ymdrechion pobl/sefydliadau eraill, ac yn cefnogi prosiectau sy'n sicrhau atebion hirdymor i'r heriau mae Cymuned y Lluoedd Arfog yn eu hwynebu.

Gweledigaeth yr ymddiriedolaeth yw gweld cyn-weithwyr y gwasanaethau arfog a'u teuluoedd yn byw bywydau sifil llwyddiannus a bodlon trwy eu galluogi i bontio mewn modd llwyddiannus a chynaliadwy.

Bob blwyddyn mae oddeutu 15,000 o bobl yn gadael Lluoedd Arfog y DU, ac mae mwyafrif llethol y rhain yn pontio'n llwyddiannus i'r byd sifil. Fodd bynnag, mae rhai angen cymorth ychwanegol, ac er budd y bobl hyn sydd fwyaf agored i niwed y mae'r Ymddiriedolaeth Forces in Mind yn bodoli.

Mae FiMT yn gwella bywydau sifil cyn-staff y gwasanaethau arfog a'u teuluoedd trwy gyflwyno tystiolaeth a all esgor ar newid gweddnewidiol a pharhaol. Mae'r ymddiriedolaeth yn hyrwyddo newidiadau mewn polisïau ynghyd â newidiadau yn y modd y caiff gwasanaethau eu cyflawni gan y Wladwriaeth a'r sectorau Gwirfoddol fel ei gilydd.

Cyn-staff y gwasanaethau arfog a'u teuluoedd yw'r buddiolwyr. Nid yw'r union ddiffiniadau o 'Cyn-filwyr', 'Teuluoedd' neu 'Pontio' yn bwysig i FiMT; yn hytrach mae'n well gan yr ymddiriedolaeth edrych ar y cyd-destun cyffredinol a'r modd mae pobl yn eu gweld eu hunain, serch bod hyn yn digwydd o fewn ffiniau ein hamcanion elusennol.

Pwrpas y grantiau a'r comisiynau yw esgor ar newid parhaol sy'n gwella bywydau cyn-staff y gwasanaethau arfog a'u teuluoedd. Mae gan yr ymddiriedolaeth seilwaith dyfarnu cadarn a chraff ac mae'n ymateb i geisiadau digymell am grantiau, yn cyflwyno ei cheisiadau ei hun am waith, ac yn comisiynu gwaith ymchwil yn uniongyrchol.

Mae FiMT yn ystyried bod chwe chanlyniad yn perthyn i bontio (Tai, Cyflogaeth, Iechyd a Llesiant, Cyllid, System Cyfiawnder Troseddol a Pherthnasau). Mae'r holl ganlyniadau'n ystyried cyn-staff y gwasanaethau arfog a'u teuluoedd.

Mae'r Ymddiriedolaeth Forces in Mind yn anelu at gefnogi gwaith a all gael dylanwad ledled y DU. Mae'n cydnabod mai mentrau rhanbarthol a bach sydd, yn aml, yn esgor ar yr effaith ddyfnaf a mwyaf arloesol, a bydd bob amser yn gweithio gyda deiliaid grantiau a chomisiynau i ddatblygu cynlluniau er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial. Yn yr un modd, nid yw'r ymddiriedolaeth yn gochelyd rhag hyrwyddo ein hargymhellion ymhlith y llunwyr polisïau uchaf eu statws yn y wlad.

# Manylion Cyswllt:

## Manylion Cyswllt Ymfyddino

### Y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol

**Cyfeiriad e-bost:** navylegal-reservesadjso2@mod.uk
**Rhif ffôn:** 02392 628 858
**Rhif ffacs:** 02392 628 660

### Royal Navy and Royal Marines Adjudication Officer

West Battery (MPG-2)
Whale Island
Portsmouth PO2 8BX

### Milwyr Wrth Gefn y Fyddin

**Cyfeiriad e-bost:** apc-cmops-mob-so2@mod.uk
**Rhif ffôn:** 0800 389 6585
**Rhif ffacs:** 0141 224 5123

### Army Adjudication Officer

Army Personnel Centre
PO Box 26703
Glasgow  G2 8YN

### Y Llu Awyr Brenhinol

**Cyfeiriad e-bost:** aira1-woadj@mod.uk
**Rhif ffôn:** 01242 682 545
**Rhif ffacs:** 01242 682 510

### Adjudication Officer

Royal Air Force Adjudication Service
Imjin Barracks
Innsworth, Gloucester GL3 1HW

## Manylion Cyswllt Ffederasiynau Teuluoedd

### Naval Families Federation

Building 25
HMS Excellent
Portsmouth
Hampshire  PO2 8ER

**Cyfeiriad e-bost:** contactus@nff.org.uk
**Rhif ffôn:** 02392 654374
**Gwefan:** www.nff.org.uk

### Army Family Federation

AFF, IDL 414
Floor 1, Zone 6
Ramillies Building
Marlborough Lines
Monxton Road
Andover SP11 8HJ

**Cyfeiriad e-bost:** adminuk@aff.org.uk
**Rhif ffôn:** 01264 382326
**Gwefan:** www.aff.org.uk

### Royal Air Force Families Federation

13-15 St Georges Road
Wittering
Peterborough PE8 6DL

**Rhif ffôn:** 01780 781650
**Gwefan:** www.raf-ff.org.uk

# Manylion Cyswllt:

## Manylion cyswllt ymgysylltu â chyflogwyr

### Highland Employer Engagement Directors

Seathwood, 365 Perth Road
Dundee DD2 1LX

**Cyfeiriad e-bost:** hi-reed@rfca.mod.uk
or hi-reed2@rfca.mod.uk
**Rhif ffôn:** 01382 631 026

### Lowland Employer Engagement Directors

60 Avenuepark Street
Glasgow G20 8LW

**Cyfeiriad e-bost:** lo-reed@rfca.mod.uk
or lo-reed2@rfca.mod.uk
**Rhif ffôn:** 0141 945 6751

### North of England Employer Engagement Directors

53 Old Elvet
Durham DH1 3JJ

**Cyfeiriad e-bost:** ne-reed@rfca.mod.uk
or ne-areed@rfca.mod.uk
**Rhif ffôn:** 0191 383 6260 neu 0191 383 6274

### Yorkshire & The Humber Employer Engagement Directors

20 St George's Place
York YO24 1DS

**Cyfeiriad e-bost:** yh-empsp@rfca.mod.uk
or yh-areed@rfca.mod.uk
**Rhif ffôn:** 01904 637 929

### North West Employer Engagement Directors

Gladstone House
Altcar Training Camp
Hightown
Liverpool L38 8AF

**Cyfeiriad e-bost:** nw-reedn@rfca.mod.uk
or nw-reeds@rfca.mod.uk
**Rhif ffôn:** 0151 317 9518 neu 0151 317 9519

### Cyfarwyddwyr Ymgysylltu â Chyflogwyr Cymru

Bloc Canol
Barics Maendy
Heol yr Eglwys Newydd
Caerdydd CF14 3YE

**Cyfeiriad e-bost:** wa-reed@rfca.mod.uk
or wa-reed2@rfca.mod.uk
**Rhif ffôn:** 02920 375734 neu 01352 755309

### West Midlands Employer Engagement Directors

Tennal Grange
Tennal Road
Harborne
Birmingham B32 2HX

**Cyfeiriad e-bost:** wm-reed@rfca.mod.uk
or wm-reed2@rfca.mod.uk
**Rhif ffôn:** 0121 427 5242 neu 0121 427 5227

### East Midlands Employer Engagement Directors

Army Reserve Centre
Triumph Road
Lenton
Nottingham NG7 2GG

**Cyfeiriad e-bost:** em-empsp@rfca.mod.uk
or em-reed1@rfca.mod.uk
**Rhif ffôn:** 01159 248 627 neu 01159 248 622

# Manylion Cyswllt:

## Manylion cyswllt ymgysylltu â chyflogwyr

### Wessex (The South West) Employer Engagement Directors

Mount House
Mount Street
Taunton
Somerset TA1 3QE

**Cyfeiriad e-bost:** wx-reed@rfca.mod.uk
or wx-reed2@rfca.mod.uk
**Rhif ffôn:** 01823 250110 neu 01823 250118

### Greater London Employer Engagement Directors

Fulham House
87 Fulham High Street
London SW6 3JS

**Cyfeiriad e-bost:** gl-reed1@rfca.mod.uk
or gl-reed2@rfca.mod.uk
or gl-reed3@rfca.mod.uk
**Rhif ffôn:** 020 7384 4688 neu 020 7384 4675
or 020 7384 4643

### South East Employer Engagement Directors

Seely House
Shoe Lane
Aldershot
Hampshire GU11 2HJ

**Cyfeiriad e-bost:** se-reed1@rfca.mod.uk
or se-reed3@rfca.mod.uk
or se-reed4@rfca.mod.uk
**Rhif ffôn:** 01252 357604

### East Anglia Employer Engagement Director

250 Springfield Road
Chelmsford
Essex CM2 6BU

**Cyfeiriad e-bost:** ea-empsp@rfca.mod.uk
**Rhif ffôn:** 01245 244 817

### Northern Ireland Employer Engagement Director

25 Windsor Park
Belfast
BT9 6FR

**Cyfeiriad e-bost:** ni-empsp@rfca.mod.uk
**Rhif ffôn:** 02895 216 794

### National Account Managers

Defence Relationship Management
Holderness House
51-61 Clifton Street
London EC2A 4EY

**Cyfeiriad e-bost:** employerrelations@rfca.mod.uk

# Manylion Cyswllt:

## Y Bartneriaeth Pontio Gyrfa / CTP

### RRC Rosyth

Regional Resettlement Centre
Building 3016
MOD Caledonia
Rosyth
Fife KY11 2XH
Scotland

**Cyfeiriad e-bost:** rrcrosyth@ctp.org.uk
**Rhif ffôn:** 01383 858237

### RRC Catterick

Regional Resettlement Centre
St Aidans Road
Catterick Garrison
North Yorkshire DL9 3AY

**Cyfeiriad e-bost:** rrccatterick@ctp.org.uk
**Rhif ffôn:** 01748 872930

### RC Aldergrove

Resettlement Centre
Building 33
Alexander Barracks
38 (Irish) Brigade
Aldergrove Flying Station BFPO 808

**Cyfeiriad e-bost:** rcaldergrove@ctp.org.uk
**Rhif ffôn:** 02894 421639

### RRC Cottesmore

Regional Resettlement Centre
Kendrew Barracks
Oakham
Rutland LE15 7BL

**Cyfeiriad e-bost:** rrccottesmore@ctp.org.uk
**Rhif ffôn:** 01572 812241 Est 7716

### CTP Colchester (RRC Cottesmore)

Colchester Resettlement Centre
Gleig House,
Merville Barracks,
Colchester CO2 7UT

**Cyfeiriad e-bost:** rccolchester@ctp.org.uk
**Rhif ffôn:** 01206 815273 neu 01206 815992

### RC Northolt

Resettlement Centre
Force Development Centre
RAF Northolt
West End Road
Ruislip Middlesex HA4 6NG

**Cyfeiriad e-bost:** rcnortholt@ctp.org.uk
**Rhif ffôn:** 020 8842 6065 neu 020 8842 6067

### London - Senior Officers

London - CTP HQ
Right Management
50 Bank Street
Canary Wharf
London E14 5NS

**Cyfeiriad e-bost:** rcnortholt@ctp.org.uk
**Rhif ffôn:** 020 8842 6065 neu 020 8842 6067

### RRC Aldershot

Aldershot Regional Resettlement Centre
Wellington House
St Omer Barracks
Thornhill Road
Aldershot, Hampshire GU11 2BG

**Cyfeiriad e-bost:** rrcaldershot@ctp.org.uk
**Rhif ffôn:** 01252 348339
**Rhif ffacs:** 01252 348337

# Manylion Cyswllt:

## Y Bartneriaeth Pontio Gyrfa / CTP

### RC Portsmouth

Resettlement Centre
Rodney Block
HMS Nelson
Portsmouth
Hampshire PO1 3HH

**Cyfeiriad e-bost:** rcportsmouth@ctp.org.uk
**Rhif ffôn:** 023 9272 4130

### RRC Tidworth

Regional Resettlement Centre
Jellalabad Barracks
North Tidworth
Hampshire SP9 7BQ

**Cyfeiriad e-bost:** rrctidworth@ctp.org.uk
**Rhif ffôn:** 01980 650689

### RC Plymouth

Resettlement Centre
Building B133
HMS Drake
Plymouth PL2 2BG

**Cyfeiriad e-bost:** rcplymouth@ctp.org.uk
**Rhif ffôn:** 01752 555 834

## Elusen Cyflogaeth y Lluoedd Arfog /RFEA

**Cyfeiriad e-bost:** info@rfea.org.uk
**Rhif ffôn:** 0121 262 3058

## Cymdeithas y Swyddogion / Officers Association

Mountbarrow House
12 Elizabeth Street
London SW1W 9RB

**Cyfeiriad e-bost:** info@officersassociation.org.uk
**Rhif ffôn:** 020 7808 4160

## Cymdeithas y Swyddogion: Yr Alban / Officers Association Scotland

New Haig House
66 Logie Green Road
Edinburgh EH7 4HQ

**Cyfeiriad e-bost:** oasadmin@oascotland.org.uk
**Rhif ffôn:** 0131 550 1581

## Porth y Cyn-filwyr / Veterans' Gateway

**Rhif ffôn:** 0808 802 1212
**Rhif neges destun:** 81212

## Cobseo

Cobseo Office
Mountbarrow House
12 Elizabeth Street
London SW1W 9RB

**Cyfeiriad e-bost:** enquiries@cobseo.org.uk
**Rhif ffôn:** 0207 811 3224/5